Ysgol Hamadryad

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Angor cadarn cyn hwylio'r don.

Pennaeth:	Mrs Rhian Carbis
Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Dr Dafydd Trystan

Ysgol Hamadryad

Dyddiad y polisi gwreiddiol: Mawrth 2019

Cyfrifoldeb: Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol

Adolygiad: Mawrth 2020

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at blant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) fel y'i diffinnir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002).

1.2 Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) a rhesymeg Llywodraeth Cymru, bydd dysgwyr y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel rhai sydd ag Angen Addysgol Arbennig (AAA) o dan Cod Ymarfer 2002 yn cael eu cyfeirio atynt fel dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) at ddibenion y Polisi hwn a'i weithrediad yn yr Ysgol, fel arwydd ein bod yn gweithio tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018).

1.3 Ystyria'r Ysgol holl ofynion *Cod Ymarfer AAA Cymru (2002)* tra hefyd yn gweithio tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018). Hyrwyddir ymagwedd gyffredin a graddoledig i adnabod, asesu a darparu ar gyfer ADY dysgwyr. Rhoir ffocws ar weithredu ac ymyrryd er mwyn helpu dysgwyr ag ADY i wneud o leiaf cynnydd digonol a chael mynediad i'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Cydnabyddir fod continwwm o ADY. Lle bo angen, penodir arbenigedd gynyddol wrth ymateb i anghenion cynyddol gymhleth dysgwyr.

1.4 Yr egwyddor sylfaenol sy'n llywio'r polisi hwn yw sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael cyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial academaidd a phersonol ac yn cael eu galluogi a'u hannog i deimlo'n aelodau teilwng a phwysig o'r ysgol a'r gymuned ehangach.

1.5 Yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002) a Deddf Addysg 1996, mae Ysgol Hamadryad yn cydnabod bod gan ddysgwyr ADY os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu ei fod yn ofynnol gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Gall hyn fod oherwydd:

i. anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant yr un oed; neu

ii. anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o'r fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed

1.6 Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r, ddarpariaeth addysgol a wneir yn arferol i blant o'r un oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALl (fel y diffinnir gan Ddeddf Addysg 1996).

1.7 Gall fod gan ddysgwyr y cydnabyddir bod ganddynt ADY anghenion yn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Gwybyddiaeth a Dysgu
- Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol
- Synhwyraidd a / neu Gorfforol

1.8 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd. Felly, nid yw'r diffiniad cyfreithiol o anabledd yr un fath â'r diffiniad o anghenion addysgol arbennig. Mae'n bosibl i fod ag anabledd, fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac heb fod ag ADY, ac i'r gwrthwyneb. Mae hefyd yn bosibl i fod yn anabl o dan y Ddeddf ac i fod ag ADY. Mae'r rhesymeg hwn yn unol â *Chod Ymarfer AAA Cymru (2002).* Wrth adnabod ADY, bydd yr Ysgol bob tro yn ystyried anghenion addysgol dysgwyr yn hytrach na diagnosis meddygol neu anabledd.

1.9 Wrth fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr ag ADY, mae'r ffocws yn Ysgol Hamadryad ar egwyddorion ac arferion cynhwysol.

1.10 Diffinia Ysgol Hamadryad gynhwysiant fel:

> Lleihau rhwystrau dysgu a chymdeithasol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at addysg bwrpasol ac at holl weithgareddau'r gymuned. Gwneir hyn drwy ymateb yn hyblyg i anghenion dysgwyr unigol, a thrwy arferion a gweithdrefnau person-ganolog.

2. Amcanion

Mae Amcanion y polisi hwn fel a ganlyn:

2.1 Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Addysg 1996, Cod Ymarfer AAA Cymru (2002), Deddf Cydraddoldeb 2010 a chanllawiau statudol eraill, a sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol o fewn yr ysgol.

2.2 Sicrhau bod gan bob disgybl ag ADY y cyfle gorau posibl i gyflawni pum deilliant *Pob Plentyn yn Cyfrif*: bod yn iach, aros yn ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol a phrofi lles economaidd.

2.3 Sicrhau bod gan bob dysgwr ag ADY fynediad llawn at gwricwlwm eang a chytbwys, ac at bob agwedd o fywyd yr ysgol.

2.4 Mynd i'r afael ag anghenion pob dysgwr ag ADY er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial academaidd a phersonol llawn.

2.5 Darparu cyfleoedd i ddysgwyr ag ADY i ddatblygu medrau allweddol er mwyn lleihau rhwystrau i ddysgu a sicrhau mynediad llawn i gwricwlwm ehangach yr ysgol.

2.6 Hyrwyddo lles emosiynol dysgwyr.

2.7 Creu amgylchedd sefydlog ond gweithgar lle bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cydnabod fel unigolion sy'n bwysig o fewn y gymuned.

2.8 Hybu a chynnal yr ymddygiad gorau posibl ar gyfer pob dysgwr.

2.9 Hyrwyddo annibyniaeth pob dysgwr a galluogi eu cyfranogiad yn y gymdeithas ehangach.

2.10 Cynnal disgwyliadau uchel ond realistig ar gyfer pob agwedd ar gynnydd dysgwyr.

3. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Allweddol

3.1 Gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethol, bydd Tîm Arwain yr Ysgol yn:

- Gwneud ei orau i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn ei le ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd ag ADY.
- Cytuno ar gyfrifoldebau allweddol y Cydlynydd ADY a monitro effeithiolrwydd y Cydlynydd ADY wrth ymgymryd â'r cyfrifoldebau hynny.
- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd adnabod a darparu ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- Sicrhau bod rhieni yn cael gwybod am benderfyniad gan yr Ysgol fod darpariaeth ADY yn cael ei gwneud ar gyfer eu plentyn.
- Sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bynnag y bo'n bosibl i fynd ati i gynnwys dysgwyr ag ADY ym mhob agwedd o weithgarwch yr ysgol

ochr yn ochr â dysgwyr nad oes ganddynt ADY cydnabyddedig, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.
- Sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir i gefnogi dysgwyr ag ADY yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.
- Rhoi sylw i God Ymarfer AAA Cymru (2002) a sicrhau bod y disgwyliadau a nodir yn y Cod yn cael eu bodloni.
- Gweithio tuag at y Ddeddf ADY newydd erbyn 2020.
- Adrodd yn flynyddol i rieni ar Bolisi ADY yr ysgol ar waith.
- Cydweithio'n llawn gyda'r Cydlynydd ADY i sicrhau bod dyletswyddau ADY yr ysgol yn cael eu bodloni.
- Penodi llywodraethwr enwebedig ar gyfer ADY.

3.2 Mae'r Cydlynydd ADY, sy'n aelod o'r Tîm Arwain ac yn uniongyrchol atebol i'r Pennaeth, yn gyfrifol am:
- oruchwylio'r gwaith o weithredu'r polisi ADY yn yr ysgol o ddydd i ddydd;
- sicrhau bod lles y dysgwyr wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch darpariaeth ADY;
- gynghori a thrafod gyda chyd-athrawon;
- gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- sicrhau bod cofnodion o ADY dysgwyr a'r ddarpariaeth a wneir i ddiwallu'r anghenion hynny yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfoes;
- ddarparu gwybodaeth i rieni a chyd-gysylltu gyda hwy am faterion ADY;
- gyfrannu at hyfforddiant mewn swydd i staff;
- gysylltu ag asiantaethau allanol a sicrhau gwasanaethau addas ar gyfer dysgwyr lle bo angen;
- fonitro effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth ADY a wneir;
- sicrhau, lle y trosglwyddir dysgwyr i sefydliad addysgol arall, fod yr holl wybodaeth berthnasol am ADY yn cael ei throsglwyddo;
- hyrwyddo cynhwysiant dysgwyr yng nghymuned yr ysgol a'u mynediad at gwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol ac at weithgareddau allgyrsiol;
- goruchwylio a hyfforddi staff penodol, e.e. cynorthwywyr, sy'n cyfrannu at y ddarpariaeth ADY a wneir;
- gynghori staff am ddulliau addysgu gwahaniaethol priodol ar gyfer disgyblion unigol ag ADY;
- sicrhau bod dyraniad adnoddau ADY yn deg, yn gydradd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- baratoi ac adolygu'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi gan y corff llywodraethu mewn perthynas ag ADY.

3.3 Mae holl staff yr ysgol yn gyfrifol am hyrwyddo cynhwysiant a lleihau rhwystrau i ddysgwyr ag ADY. Yn ogystal, mae cyfrifoldeb ar bob aelod staff yn Ysgol

Hamadryad i gefnogi a deall anghenion pob dysgwr unigol ag ADY, yn enwedig lle bo ganddynt gyswllt uniongyrchol â'r dysgwyr hynny. Yn benodol, disgwylir bod pob aelod o staff yn:

- ddefnyddio'r strategaethau cefnogi a awgrymir ar gyfer dysgwyr ag ADY cydnabyddedig;
- cefnogi lles dysgwyr;
- monitro lles a chynnydd dysgwyr ag ADY;
- adrodd unrhyw bryderon ynghylch cynnydd neu les i'r Cydlynydd ADY;
- adrodd ar gynnydd dysgwyr ag ADY, ar gais y Tîm Arwain.

3.4 Yn ogystal, bydd dyletswyddau ychwanegol ym maes ADY gan rai aelodau staff, yn ddibynol ar y modd y dosrennir cyfrifoldebau gan y Cydlynydd ADY. Gallai rhain gynnwys:

- addysgu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr yn uniongyrchol, naill ai o fewn neu du allan i'r dosbarth;
- dyletswyddau goruchwylio amser cinio ac amser egwyl ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY;
- cynnal tasgau gweinyddol sy'n ofynnol ar gyfer dysgwyr ag ADY.

4 Trefniadau

Adnabod ac Asesu

4.1 Mae staff addysgu a chefnogi yn adnabod dysgwyr a gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt trwy eu hymwneud o ddydd i ddydd gyda nhw. Lle bo pryderon yn codi, bydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal cyn adnabod ADY. Dim ond trwy gydweithrediad rhwng staff yr ysgol, y dysgwyr a'u r(h)ieni yr adnabyddir anghenion penodol dysgwyr unigol. Lle bo angen, darperir arbenigedd ychwanegol gan asiantaethau allanol er mwyn adnabod anghenion.

4.2 Cydnabyddir bod ymyrraeth gynnar yn allweddol wrth ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Bydd athrawon dosbarth yn trafod unrhyw bryderon am ADY mor gynnar â phosib â rhieni, gan weithio gyda rhieni er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr. Bydd yr athrawon dosbarth yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd ADY i asesu a monitro cynnydd y dysgwr yn unol ag arferion arferol yr ysgol. Bydd y Cydlynydd ADY yn gweithio'n agos gyda staff, rhieni a, lle bo'n berthnasol, asiantaethau allanol, er mwyn cynllunio darpariaeth ar gyfer y dysgwr.

4.3 Defnyddir nifer o ddulliau ac adnoddau asesu er mwyn adnabod anghenion dysgu ychwanegol ac er mwyn monitro cynnydd dysgwyr ag ADY. Gall y rhain gynnwys

asesiadau ffurfianol a chrynodol, asesiadau cyffredinol sy'n tracio cynnydd holl ddysgwyr yr ysgol, asesiadau sy'n benodol at ddysgwyr ag ADY er mwyn adnabod anghenion neu i fonitro cynnydd, asesiadau sy'n benodol i ymyrraethau arbennig neu asesiadau arbenigol.

4.4 Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol os oes ganddynt bryderon ynghylch cynnydd neu unrhyw anghenion ychwanegol eu plentyn. Bydd hyn eto yn arwain at ymchwiliadau pellach cyn y gwneir penderfyniad ynghylch penodi dysgwyr fel dysgwyr ag ADY.

4.5 Adnabyddir anghenion dysgwyr sydd â Datganiadau AAA gan yr Awdurdod Lleol (ALl). Bydd y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgwyr sydd â Datganiadau yn cael ei phenderfynu gan yr ALl, a'r anghenion yn cael eu diwallu drwy adnoddau a ddarperir gan yr ALl ac o fewn adnoddau'r Ysgol.

Darpariaeth

4.6 Mae pob athro yn Ysgol Hamadryad yn athro i ddisgyblion ag ADY. Mae'r holl staff dysgu yn derbyn hyfforddiant mewn swydd i'w galluogi i adnabod a chefnogi disgyblion sydd angen addysg sy'n ychwanegol at ac yn wahanol i'r cwricwlwm gwahaniaethol a gynigir i bob disgybl, ac i ddefnyddio strategaethau sy'n lleihau rhwystrau dysgu ar gyfer dysgwyr ag ADY cydnabyddedig.

4.7 Lle bo dysgwyr yn derbyn ymyrraeth ADY ychwanegol, bydd yr ysgol yn llunio 'Proffil Unigol' unigryw ar sail ymchwiliad trylwyr o anghenion y dysgwr. Y Cydlynydd ADY sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Proffiliau Unigol yn cael eu rhannu gyda staff, yn hygyrch ac yn gyfoes. Bydd rol allweddol gan athrawon dosbarth wrth lunio'r Proffil Unigol. Staff addysgu sydd yn gyfrifol am wneud yr addasiadau rhesymol angenrheidiol i arferion dysgu ac addysgu, fel y nodir yn y Proffiliau Unigol. Disgwylir i'r holl staff sicrhau eu bod yn gyfarwydd â Phroffil Unigol pob dysgwr y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt. Mae'r strategaethau a nodir ym mhob Proffil Unigol yn cael eu teilwra i anghenion unigol pob dysgwr ac yn ceisio lleihau'r rhwystrau i ddysgu ar gyfer y dysgwr unigol hwnnw. Mae'r strategaethau eu hunain yn fodd i greu cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr ag ADY sy'n ychwanegol at ac yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei gynnig trwy wahaniaethu arferol.

4.8 Bydd angen ar lawer, ond nid pob, dysgwr ag ADY, fynediad at raglen ymyrraeth wedi ei thargedu. Cynigir ystod eang o ymyraethau gan yr ysgol er mwyn targedu sgiliau sylfaenol a lles dysgwyr. Yn unol ag arfer dda a thystiolaeth genedlaethol, mae nifer o raglenni ymyrraeth wedi eu strwythuro a'u cynllunio fel rhai tymor byr sy'n cynnig cefnogaeth ddwys.

5 Gweithdrefnau

Ymateb Graddoledig

5.1 Yn unol â'r Cod Ymarfer AAA Cymru (2002), mae'r ysgol yn arddel ymateb graddoledig drwy ymyraethau ar lefel *Gweithredu gan yr Ysgol (GY), Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (GY+)* a *Datganiadau AAA*.

5.2 Mae'r ymateb graddoledig i gwrdd ag anghenion unigol yn dechrau unwaith y penderfynir ei fod yn bosib fod gan ddysgwyr ADY cydnabyddedig. Prawf allweddol yw a ydyw'r dysgwr yn gwneud o leiaf cynnydd digonol neu'n methu cael mynediad i'r cwricwlwm. Bydd y Cydlynydd ADY yn hysbysu rhieni'r dysgwr pan fod yr ysgol yn dechrau gwneud darpariaeth a bydd yn egluro'n fanwl pa ddarpariaeth sydd i'w gwneud ar gyfer eu plentyn a sut y bydd y canlyniadau yn cael eu monitro a'u hadolygu.

5.3 Unwaith y nodir fod ADY gan ddysgwr, disgrifir y ddarpariaeth ychwanegol neu wahanol fel *Gweithredu gan yr Ysgol*. Gall hyn fod ar ffurf asesiad pellach, deunyddiau cwricwlwm ychwanegol neu wahanol neu ffordd wahanol o ddysgu. Bydd hyn weithiau, ond nid bob amser, yn arwain at gefnogaeth oedolion ychwanegol neu ymyrraeth.

5.4 Mae cynnydd dysgwyr ar *Gweithredu gan yr Ysgol* yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Os nad yw dysgwr ar *Gweithredu gan yr Ysgol* yn gwneud o leiaf cynnydd digonol, neu yn methu cael mynediad i'r cwricwlwm er gwaethaf ystod o ymyraethau ychwanegol neu wahanol, mae'n bosib bydd yr Ysgol, gyda chytundeb y rhieni, yn penderfynu symud at ymyraethau trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Mae cychwyn *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn digwydd pan fydd yr Ysgol yn gofyn am gyngor gan wasanaethau cefnogi allanol neu gan weithwyr proffesiynol iechyd neu weithwyr cymdeithasol.

5.5 Lle nad yw dysgwyr ar *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn gwneud cynnydd digonol, er gwaethaf addasiad o'r gefnogaeth a darpariaeth yn unol â chyngor gan asiantaethau allanol, bydd yr ysgol yn cyflwyno cais i'r ALl am Asesiad Statudol o anghenion y dysgwr. Gall hyn arwain at sefydlu Datganiad AAA, sy'n rhoi manylion am y ddarpariaeth a wneir ar gyfer y dysgwr gan yr ysgol a'r ALl.

Strategaethau ac Ymyraethau

5.6 Cofnodir y strategaethau ac ymyraethau a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr unigol ar 'Broffil Unigol' y dysgwyr. Mae'r rhain yn arf addysgu a chynllunio ac yn

ddogfennau gweithredol ar gyfer yr holl staff addysgu. Maent yn cofnodi strategaethau allweddol sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, y rhai a welir yn arferol ar gyfer dysgwyr eraill.

5.7 Lle bo dysgwyr yn derbyn ymyrraeth ychwanegol, mae targedau allweddol yn cael eu gosod ar gyfer eu cynnydd dros gyfnod yr ymyrraeth. Cynlluniau Personol y dysgwyr yw'r rhain, y cyfeirir atynt fel Cynlluniau Addysg Unigol yn y Cod Ymarfer AAA Cymru (2002). Bydd y Cynlluniau yn canolbwyntio ar hyd at dri neu bedwar targed unigol allweddol a fydd yn helpu i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Bydd cryfderau a llwyddiannau'r disgybl, a'u meysydd datblygu, yn cael eu nodi yn y Cynllun Personol ac yn sail i'r targedau a osodir a'r strategaethau a ddefnyddir. Bydd y targedau yn ymwneud â'r meysydd allweddol a flaenoriaethir yn yr ymyrraeth ac yn cael eu cytuno ar y cyd gyda'r dysgwyr. Staff cefnogi'r ymyrraeth sydd yn gyfrifol am gydlynu'r targedau hyn a'u rhannu gyda'r rhieni.

Adolygu Cynnydd

5.8 Adolygir cynnydd dysgwyr ag ADY yn unol â pholisi'r ysgol ar adolygu cynnydd pob dysgwr. Cydnabyddir ei bod yn fwy ystyrlon yn aml i dracio cynnydd dysgwyr ag ADY gan ystyried cynnydd yn erbyn targedau unigol a chyraeddiadau blaenorol yn hytrach na disgwyliadau cenedlaethol.

5.9 Adolygir Cynlluniau Addysg Unigol neu Gynlluniau Personol dysgwyr o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

5.10 Ar gyfer dysgwyr sydd â Datganiadau AAA, cynhelir cyfarfodydd Adolygiad Blynyddol o'r Datganiad o leiaf yn flynyddol. Cynhelir yr Adolygiad Blynyddol yn amlach os yw'r Datganiad neu'r amgylchiadau unigol yn awgrymu bod angen hynny. Cynhelir adolygiadau cynnar neu interim pan adnabyddir dysgwr sydd mewn perygl difrifol o gael gwaharddiad neu ddadrithiad neu os oes newid mewn amgylchiadau yn arwain at sefyllfa lle bo'r ddarpariaeth a nodir yn y Datganiad bellach yn amhriodol.

Asiantaethau Cefnogi Allanol

5.11 Yr Cydlynydd ADY sy'n gyfrifol am gyfeirio dysgwyr at a chydlynu cyfraniad gwasanaethau cefnogi allanol, os bydd pryderon ynghylch lles neu gynnydd dysgwyr unigol yn cyfiawnhau hyn. Sicrheir bod canaiatad llawn a chydweithio agos â rhieni bob tro wrth gyfeirio at asiantaethau allanol.

5.12 Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau Gwasanaeth Addysg yr ALl a'i dimau arbenigol cyfansoddol, gan gynnwys y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Tîm Cymorth Awtistiaeth, Tîm Addysgu Arbenigol Nam Gweledol, Tîm Addysgu Arbenigol Nam

Clyw, Tîm Addysgu Arbenigol Iaith a Lleferydd, Thîm Addysgu Arbenigol Gwybyddiaeth a Dysgu a'r Tîm Blynyddoedd Cynnar ac Anghenion Meddygol.

5.13 Bydd y Cydlynydd ADY yn sicrhau bod perthynas waith dda yn bodoli gyda'r asiantaethau allanol hynny mae'r Adran yn gweithio'n rheolaidd â hwy, e.e. trwy gyfarfodydd rheolaidd a darparu gwybodaeth drylwyr ynglŷn â dysgwyr unigol.

5.14 Er nad yw hi'n bosib i'r Ysgol gyfeirio'n uniongyrchol at dimau proffesiynol yr Awdurdod Iechyd, bydd yr ysgol yn gwneud cyswllt ag asiantaethau sy'n ymwneud â'r dysgwyr, lle bo angen. Bydd caniatâd llawn y rhieni bob amser yn cael ei sicrhau cyn cysylltu.

5.15 Yr Cydlynydd ADY sy'n gyfrifol am rannu unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan wasanaethau cefnogi allanol gyda staff yr ysgol. Lle bo angen, bydd y Proffil Unigol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddarpariaeth neu strategaethau.

Trosglwyddo a Phontio

5.16 Lle bo dysgwyr ag ADY cydnabydedig yn trosglwyddo i Ysgol Hamadryad, sicrheir bod cydweithio agos rhwng staff yr ysgol a rhieni'r dysgwyr, asiantaethau allanol a lleoliad addysgol. Gwneir pob ymdrech i gydweithio gyda'r rhanddeiliaid yma cyn i ddysgwyr drosglwyddo er mwyn gallu cynllunio darpariaeth cyn i ddysgwyr fynychu Ysgol Hamadryad.

5.17 Lle bod dysgwyr ag ADY cydnabydedig yn trosglwyddo i ddarapriaeth addysgol arall o Ysgol Hamadryad, gwneir pob ymdrech i gyfathrebu'n effeithiol gyda'r lleoliad addysgol newydd.

5.18 Mae perthynas weithiol agos rhwng Cydlynydd ADY yr ysgol a gweddill Cydlynwyr ADY y clwstwr ac â holl ysgolion Uwchradd Cymraeg y Sir. Cynhelir cyfarfodydd Clwstwr tymhorol gyda Chydlynwyr y Clwstwr, yn ogystal â chyfarfod blynyddol gyda holl Gydlynwyr ysgolion cyfrwng-Cymraeg y Sir. Rhoir ffocws ar weithdrefnau pontio i'r Uwchradd yn y cyfarfodydd hyn. Cyn i ddysgwyr ag ADY drosglwyddo o Ysgol Hamadryad i'r Ysgol Uwchradd,

5.19 Cyn i ddysgwyr ag ADY drosglwyddo i Ysgolion Uwchradd, bydd camau trosglwyddo effeithiol yn eu lle, gan gynnwys yr isod:

- Sicrhau perthynas agos rhwng yr ysgol a'r adran ADY yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf;
- Bydd pob disgybl ym mlwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn diwrnodau trosglwyddo yn eu hysgol uwchradd berthnasol.
- Cynhelir cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i drafod y plant sy'n trosglwyddo i Lantaf.

- Gwahoddir y Cydlynydd ADY a Phennaeth Blwyddyn 7 i unrhyw adolygiadau blynyddol ar gyfer plant ym Mlwyddyn 5 a 6. Bydd unrhyw broffiliau, ffeiliau dogfennau, llyfrau asesu ffurfiannol a chopïau o CAU ar gyfer pob disgybl ag ADY yn cael eu rhannu i sicrhau bod dilyniant ar ôl trosglwyddo.
- Cynhelir cyfarfodydd i drafod disgyblion ADY gyda Chydlynydd AAA ym Mro Edern yn ychwanegol i'r cyfnodau pontio.

Llais y Dysgwr

5.20 Mae Ysgol Hamadryad yn cydnabod bod cyfranogiad gweithredol dysgwyr yn eu haddysg a'u darpariaeth yn allweddol os yw dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial. Gyda chyfranogiad gweithredol llawn, gellir cymell dysgwyr yn llawn i weithio tuag at dargedau personol neu i deilwra strategaethau dosbarth ar gyfer eu hanghenion. Mae'r 'Proffil Unigol' yn ddogfen allweddol yn hyn o beth ac mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn ei greu a'i adolygu.

5.21 Y tu allan i'r gweithdrefnau hyn, mae dysgwyr ag ADY yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon neu safbwyntiau cadarnhaol o ran darpariaeth neu gymorth. Lle y bo'n rhesymol bosibl, bydd unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu blaenoriaethu a gweithredu arnynt.

5.22 Er mwyn sicrhau ymddiriedaeth a chydweithrediad dysgwyr, bydd staff yr ysgol yn ceisio cefnogi dysgwyr sydd ag ADY mewn modd hydeiml a chnnil, gan sicrhau cyfrinachedd lle bynnag bo hynny'n bosib.

5.23 Yn unol â Mesur Addysg (Cymru) 2009, pennir aelod o staff fel Gweithiwr Allweddol ar gyfer dysgwyr â Datganiadau o AAA at ddiben adolygu Datganiadau Arfaethedig a Diwygiedig a dogfennau Adolygiad Blynyddol. Prif ffocws y gwaith yw sicrhau bod y dysgwyr yn cael gafael ar gynnwys a phwrpas y dogfennau hyn, lle bynnag y bo'n bosibl, a defnyddir strategaethau aml-synhwyrol er mwyn hwyluso mynediad y dysgwyr at y wybodaeth hon. Mae'r gefnogaeth a roir i ddysgwyr fel a ganlyn:

- Esbonio unrhyw ddogfennaeth a gyflwynir gan neu i'r ALl yn ymwneud ag ADY y dysgwr
- Cysylltu â gweithiwr achos yr ALl ar ran y dysgwr
- Cysylltu â SNAP ar ran y dysgwr
- Cadw cofnodion pwrpasol yn ymwneud â'r uchod

Cyfranogiad Rhieni

5.24 Mae gan rieni ein dysgwyr ag ADY wybodaeth a phrofiad allweddol ynghylch eu plant ac mae cyd-weithio agos rhwng yr ysgol a'r rhieni yn allweddol er mwyn i'r Ysgol allu cefnogi cynnydd a lles y dysgwyr yn effeithiol. Bydd yr Ysgol yn sicrhau bod rhieni a dysgwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch y

ddarpariaeth. Bydd barn y disgyblion a'u rhieni yn cael gwrandawiad teg ac yn cael eu hymgorffori yn y cynllunio i ddiwallu anghenion y dysgwyr.

5.25 Y prif nod yw cael partneriaeth gynhyrchiol gyda rhieni, a gefnogir gan y gweithgareddau canlynol:

- Sicrhau bod rhieni yn cael gwybod am y gwaith a wneir gyda'u plentyn, gan gynnwys sicrhau bod copïau o Broffiliau Unigol yn cael eu hanfon adref;
- Caiff rhieni eu hannog yn weithredol i gysylltu â'r ysgol os oes materion y maent yn dymuno trafod;
- Mae staff yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni yn gyflym petai pryderon yn codi ynghylch cynnydd neu les unigolion sydd ag ADY;
- Gwahoddir rhieni i gyfrannu at brosesau adolygu;
- Mae pob cyswllt â rhieni yn cael ei gofnodi.

6 Trefniadau Derbyn

6.1 Am ragor o fanylion am drefniadau derbyn yr ysgol, dylid cyfeirio at Bolisi Derbyn a Phrosbectws yr Ysgol. Mae'r Ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r ALl ar gyfer derbyn dysgwyr, a Dinas a Sir Caerdydd yw Awdurdod derbyn swyddogol yr Ysgol.

6.2 Nid yw Ysgol Hamadryad yn gwahaniaethu yn erbyn darpar ddisgyblion ag ADY neu sydd ag anabledd.

7 Dyrannu Adnoddau ADY

8.1 Dyrennir yr adnoddau canlynol ymysg y dysgwyr a nodir fel rhai ag ADY yn ôl yr angen:

- Ystod eang o ymyraethau ADY i hybu cynnydd addysgol, naill ai o fewn y dosbarth neu mewn grwpiau ymyrraeth y tu allan i'r dosbarth, a'r rhain yn cael eu harwain gan staff addas;
- Amrywiaeth o ymyraethau i gefnogi lles dysgwyr;
- Defnydd o staff yn unol â Datganiadau o AAA;
- Offer TGCh a meddalwedd arbenigol;
- Offer arbenigol ar gyfer rhai unigolion, lle bo'n bosib a lle bo angen cydnabyddedig;
- Dyrannu goruchwyliaeth ychwanegol a gweithgareddau y tu allan i oriau gwersi arferol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd angen y gefnogaeth hon.

8 Cwricwlwm Eang a Chytbwys

9.1 Mae'r holl ddysgwyr yn Ysgol Hamadryad yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn gweithio tuag at Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002), bydd ceisiadau ar gyfer datgymhwyso dysgwyr o agweddau o'u cwricwlwm dim ond yn cael eu gwneud trwy weithdrefnau'r Adolygiadau Blynyddol gyda chaniatâd yr ALl ac felly dim ond ar gyfer dysgwyr sydd â Datganiadau AAA.

9.2 Bydd yr ysgol yn cynorthwyo dysgwyr ag ADY i gael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys drwy:

- ddarparu ymyraethau i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr;
- gefnogi dysgwyr mewn gwersi;
- sicrhau bod staff yn ymwybodol o strategaethau a dulliau addysgu amgen a phriodol;
- ddarparu gwybodaeth am y rwystrau ac anghenion dysgwyr unigol ag ADY, ynghyd â strategaethau a awgrymir er mwyn cefnogi mynediad i'r cwricwlwm.

9.3 Lle bo angen tynnu dysgwyr o wersi i gael mynediad at ymyrraeth, bydd hyn ar sail tystiolaeth

a) fod anghenion y dysgwr yn ddigon difrifol i warantu gwneud hynny, a
b) heb fynediad at yr ymyrraeth bydd y dysgwr yn parhau i'w weld hi'n anodd i gael mynediad at y cwriclwm.

10 Cwynion

10.1 Dylid gyfeirio at Bolisi Gwynion yr ysgol. Dylai unrhyw gwynion ynghylch matrion ADY yn y lle cyntaf gael eu cyfeirio at y Cydlynydd ADY. Os nad ydyw rhiant neu ddysgwr yn teimlo bod ei gŵyn ef/ei chŵyn hi wedi cael ei drin yn foddhaol gan y Cydlynydd ADY, mae ganddo/ganddi'r hawl i gyfeirio'r mater at Bennaeth yr Ysgol, ac yn y pen draw at y Corff Llywodraethol.

11 Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

11.1 Bydd y Corff Llywodraethol yn gwerthuso llwyddiant yr addysg sy'n cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY trwy:

- Cyfarfod yn flynyddol gyda'r Cydlynydd ADY i ystyried effeithiolrwydd y Polisi ADY a'r gweithdrefnau cysylltiedig, gan adrodd yn flynyddol i rieni ar faterion sy'n codi;
- adolygu Cynllun Gwella'r Ysgol;
- adolygu data cyrhaeddiad yr Ysgol, gan gynnwys data cynnydd dysgwyr ag ADY;
- ystyried adroddiadau'r Pennaeth a/neu y Cydlynydd ADY yn ymwneud â materion ADY;
- drafodaethau rheolaidd rhwng yr Llywodraethwr Enwebedig ar gyfer ADY a'r Cydlynydd ADY.

12 Cyfeiriadau

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf

Rheoliadau Addysgol (Anghenion Dysgu Ychwanegol) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999
http://www.opsi.gov.uk/si/si1999/uksi_19991442_en.pdf

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents

Mesur Addysg (Cymru) 2009
Yng nghyd-destun gweithwyr allweddol ar gyfer dysgwyr gyda Datganiadau AAA

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Llofnod y Pennaeth: Rh. Corbis

Dyddiad: Mawrth 2019